



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Diwygio Esemptiadau i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

Dyddiad: Ebrill 2025

Fersiwn: 1.0

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ydym ni. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd.



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch [iwww.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/)

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i [EnvRegs@Defra.gov.uk].

[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

# Cynnwys

Diwygio Esemptiadau i Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 .....	1
Cynnwys.....	3
1. Gwybodaeth am yr ymgynghoriad .....	5
Crynodeb gweithredol .....	5
Cyflwyniad.....	5
Diben yr ymgynghoriad .....	6
Geirfa .....	7
Ymateb i'r ymgynghoriad.....	8
Cyfnod yr ymgynghoriad .....	8
Ar ôl yr ymgynghoriad .....	8
Cydymffurfio ag egwyddorion ymgynghori.....	9
2. Gwybodaeth amdanoch chi .....	10
Cwestiynau .....	11
3. Y Rheoliadau.....	12
Hierarchaeth o lefelau rheoli cymesur .....	13
Newid lefel y math o gyfleuster yn yr hierarchaeth .....	17
Oedi yn y system bresennol .....	18
Cwestiynau .....	19
4. Newidiadau arfaethedig i wneud yr hierarchaeth yn fwy hyblyg .....	19
Cwestiwn.....	23
Dosbarthiadau presennol o gyfleusterau y bydd y pwerau'n berthnasol iddynt.....	23
Dosbarthiadau ychwanegol o gyfleusterau y bydd y pwerau'n berthnasol iddynt.....	24
Cwestiynau .....	24
Cymhwyso'r pwerau .....	25
Cwestiynau .....	26

5. Diogelu.....	27
Diogelu ar gyfer amcanion .....	27
Cwestiynau .....	28
Diogelu ar gyfer risg amgylcheddol .....	28
Cwestiynau .....	28
Mesur diogelu y mae angen ymgynghori yn ei gylch .....	29
Cwestiwn.....	29
Mesur diogelu yn caniatáu i weinidogion y Llywodraeth atal y pwerau rhag cael eu defnyddio .....	30
Mesur diogelu ar fwy nag un cyfleuster ar un safle.....	30
Cwestiynau .....	31
Mesurau diogelu ychwanegol.....	31
Cwestiwn.....	31
6. Costau a manteision.....	32
Cwestiynau .....	32
7. Adborth Ymgynghoreion i'r Arolwg Ar-lein .....	33

# 1. Gwybodaeth am yr ymgynghoriad

## Crynodeb gweithredol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu gwneud i [Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol \(Cymru a Lloegr\) 2016](#).

Mae'r cynigion hyn yn ymwneud â Chymru a Lloegr yn unig, a dim ond yn ymwneud â gweithgareddau perygl llifogydd, gweithrediadau gwastraff, gweithgareddau gollwng dŵr, a gweithgareddau dŵr daear. Yn Lloegr yn unig, maent hefyd yn ymwneud â'r gweithgareddau rheoli a chludo gwastraff sydd y gellid eu cyflwyno i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol fel rhan o unrhyw ddiwygiadau i'r system gofrestru cludwyr, broceriaid a gwerthwyr gwastraff yn Lloegr. Maent yn cynnwys mesurau diogelu llym i atal niwed amgylcheddol, a byddant yn ategu mentrau ar wahân gan reoleiddwyr i gynyddu craffu, goruchwyliaeth ac, yn y pen draw, berfformiad sectorau a drwyddeddir.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o raglen rheoleiddio ar gyfer twf llywodraeth y DU. Rydym wedi ymrwmo i wella rheoleiddio i sicrhau ein bod yn diogelu'r amgylchedd ar yr un pryd â chefnogi twf economaidd drwy leihau baich rheoleiddio. Byddai'r newidiadau a gynigir gennym yn gwneud y gyfundrefn drwyddedu yn fwy ystwyth o ran rheoli risg amgylcheddol ac yn rhoi mwy o sicrwydd a thryloywder i fusnesau.

Mae'r gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol wedi esblygu dros amser ac mae'n parhau i newid fel rhan o'r dirwedd reoleiddio ehangach. Mae ein cynigion yn ceisio symleiddio'r trefniadau ymhellach o ran y mathau o reolaethau sy'n berthnasol i wahanol fathau o risg amgylcheddol. Ein nod yw symleiddio a chyflymu'r broses ar gyfer y rheoleiddwyr arweiniol (Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru) i greu, diwygio a dileu mathau o gyfleusterau a gweithgareddau esempt nad oes rhaid iddynt fod â thrwydded amgylcheddol. Mae ein cynigion yn cynnwys opsiynau ar gyfer diogelu tryloywder ac atebolrwydd y rheoleiddwyr wrth wneud penderfyniadau ynghylch ar gyfer cyfleusterau esempt fod yn gymwys.

Mae'r ddogfen hon yn gofyn am farn ar ddyluniad a chwmpas ein cynigion a'r mesurau diogelu ar gyfer defnyddio esemptiadau.

Rydym yn chwilio'n benodol am safbwyntiau gan y busnesau a'r sectorau sydd o fewn cwmpas y diwygiadau hyn, yn ogystal â sefydliadau ac unigolion ehangach ar draws y gymdeithas sifil, llywodraeth leol a'r byd academiaidd.

## Cyflwyniad

Mae'r gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol, a nodir yn [Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol \(Cymru a Lloegr\) 2016](#) (y rheoliadau), yn mynnu bod rheoleiddwyr yng

Nghymru a Lloegr yn goruchwyllo gweithgareddau a allai niweidio'r amgylchedd. Nod y gyfundrefn yw:

- Diogelu'r amgylchedd fel bod targedau a chanlyniadau amgylcheddol polisi statudol a pholisi'r llywodraeth yn cael eu cyflawni; a
- Gweithredu'n effeithiol ac effeithlon, mewn ffordd sy'n rhoi mwy o eglurder ac yn lleihau'r baich gweinyddol ar reoleiddwyr a gweithredwyr.

Mae trwyddedu amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig o ran diogelu'r amgylchedd ac iechyd pobl rhag amrywiaeth eang o risgiau, fel llifogydd, llygredd dŵr ac aer, a halogi'r dirwedd yn sgil gwastraff. Mae'n berthnasol i ddegau o filoedd o weithredwyr, yn amrywio o unigolion ar raddfa ddomestig i safleoedd diwydiannol mawr.

Canfu adolygiad ôl-weithredu o'r rheoliadau, a gyhoeddwyd yn 2023, ei bod yn ymddangos bod y rheoliadau'n gweithio'n effeithiol, a bod yr hierarchaeth o lefelau rheolaeth sy'n sail i'r fframwaith wedi arwain at fanteision sylweddol. Roedd yr adolygiad hefyd wedi nodi gwelliannau posibl, fel gwneud y fframwaith yn fwy ymatebol i newidiadau ar lawr gwlad ac anghenion gweithredwyr.

Rydym yn cynnig newidiadau i'r rheoliadau i gyflawni'r gwelliannau hyn drwy wneud y broses ar gyfer creu esemptiadau a diwygio eu hamodau yn un fwy hyblyg. Byddem yn gwneud y newidiadau hyn drwy osod offeryn statudol gerbron y Senedd.

## Diben yr ymgynghoriad

Rydym eisiau sicrhau y bydd ein cynnig yn helpu i roi hwb i dwf economaidd a sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr, busnesau a'r amgylchedd. Rydym yn gofyn am safbwyntiau gan fusnesau a phobl sy'n cael eu rheoleiddio ac y gallai newidiadau i'r rheoliadau effeithio arnynt, ar unrhyw raddfa – o safleoedd domestig i safleoedd mawr. Rydym hefyd yn gofyn am farn sefydliadau, grwpiau ac unigolion eraill sydd â diddordeb mewn rheoleiddio amgylcheddol a/neu'r fframwaith trwyddedu.

Rydym yn croesawu cyfraniadau gan ymatebwyr a all gryfhau ein dadansoddiad o effaith bosibl y cynigion hyn. Yn benodol, rydym yn awyddus i glywed barn rhanddeiliaid sydd â diddordeb yn y dosbarthiadau o weithgareddau a chyfleusterau y bydd ein cynigion yn effeithio arnynt (gweithgareddau perygl llifogydd, gweithrediadau gwastraff, gweithgareddau gollwng dŵr, gweithgareddau dŵr daear, ac – yn Lloegr yn unig – gweithgareddau rheoli a chludo gwastraff). Mae hyn yn cynnwys rhai gweithgareddau bach iawn, fel gollwng carthion aelwydydd, a mân waith adeiladu ar gyrсияu dŵr.

Ni fydd y cynigion hyn yn effeithio ar ddosbarthiadau eraill o gyfleusterau, fel cyfleusterau diwydiannol a gweithgareddau sylweddau ymbelydrol. Mae croeso o hyd i randdeiliaid sydd â diddordeb yn y dosbarthiadau hyn, yn ogystal ag unrhyw ymatebwyr eraill, ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd gan Iywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

## Geirfa

**Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol** neu '**y rheoliadau**': [Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol \(Cymru a Lloegr\) 2016](#) (O.S. 2016/1154)

**Cyfleusterau:** y gosodiadau, y gorsafoedd, y gweithrediadau, y generaduron a'r gweithgareddau sydd o fewn y cwmpas ar gyfer darpariaethau'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cyfleuster wedi'i reoleiddio:** Cyfleuster sydd angen trwydded. Mae hyn yn cynnwys rhai mathau o weithgareddau syml fel y rhai sy'n ymwneud â pherygl llifogydd.
- **Cyfleuster wedi'i esemptio:** Gweithrediad gwastraff, gweithgaredd gollwng dŵr, gweithgaredd dŵr daear neu weithgaredd perygl llifogydd sydd wedi'i esemptio. Mae'r cyfleusterau hyn wedi'u nodi yn rheoliad 5 o'r rheoliadau presennol ac maent o fewn cwmpas darpariaethau'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ond nid oes angen trwydded arnynt. Yn dilyn unrhyw ddiwygio i'r system cofrestru cludwyr, broceriaid a gwerthwyr gwastraff yn Lloegr, gallai hyn hefyd gynnwys gweithgareddau rheoli a chludo gwastraff sydd wedi'u hesemptio. Nid yw'r diffiniad hwn yn cynnwys unrhyw fath arall o gyfleuster sydd wedi'i 'esemptio' o dan rannau eraill o'r rheoliadau, fel gweithgareddau sylweddau ymbelydrol sydd wedi'u hesemptio.

**Dosbarth cyfleuster:** O dan y rheoliad 8 presennol, mae cyfleusterau wedi'u rheoleiddio yn cael eu grwpio i'r 12 dosbarth canlynol:

- (a) gosodiad;
- (b) offer symudol;
- (c) gweithrediad gwastraff;
- (d) gweithrediad gwastraff mwyngloddio;
- (e) gweithgaredd sylweddau ymbelydrol;
- (f) gweithgaredd gollwng dŵr;
- (g) gweithgaredd dŵr daear;
- (h) peiriant bach ar gyfer llosgi gwastraff;
- (i) gweithgaredd allyrru toddyddion;
- (j) gweithgaredd perygl llifogydd.
- (k) offer hylosgi canolig;
- (l) generadur penodedig

**Rheoleiddwyr arweiniol:** Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â Lloegr, a Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â Chymru.

**Gweithredwr:** Y person sydd â rheolaeth dros weithrediad cyfleuster wedi'i reoleiddio neu unrhyw gyfleuster, gweithgaredd neu weithrediad sydd wedi'u hesemptio.

## Ymateb i'r ymgynghoriad

A fydddech cystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn un o'r ffyrdd canlynol:

Ar-lein gan ddefnyddio hwb ymgynghori Citizen Space yn Defra

<https://consult.defra.gov.uk/>

Er mwyn ei gwneud yn haws i ddadansoddi, byddai'n well gennym gael ymatebion drwy lwyfan Citizen Space, ond mae opsiynau eraill ar gael isod os oes angen:

Ar e-bost: [EnvRegs@defra.gov.uk](mailto:EnvRegs@defra.gov.uk)

Yn ysgrifenedig i:

Tîm Rheoliadau Amgylcheddol, Defra

Seacole Building

2 Marsham Street

Llundain

SW1P 4DF

Sylwch, mae'n rhaid i unrhyw ymatebion a gaiff eu hanfon drwy'r post fod **wedi cyrraedd** y cyfeiriad uchod erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad (03/06/2025) i gael eu hystyried. Ni fyddwn yn dadansoddi unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. I sicrhau bod eich ymateb yn cael ei gynnwys yn y dadansoddiad, ystyriwch ymateb ar-lein ar Citizen Space.

Defra sy'n rheoli'r broses ymgynghori ar ran y llywodraeth.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu cael gafael ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarperir drwy hwb ymgynghori Citizen Space.

## Cyfnod yr ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am 8 wythnos, rhag yr 8th o Ebrill ac yn dod i ben ar yr 3rd o Mehefin 2025.

## Ar ôl yr ymgynghoriad

Ar ôl yr ymgynghoriad, bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu cyhoeddi a'u rhoi ar wefan y llywodraeth yn [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra). Bydd yr ymatebion i'r



ymgyngoriad hwn yn cael eu hadolygu a'u hystyried wrth ddatblygu polisi'r rheoliadau yn y dyfodol.

Gall gwybodaeth a ddarperir i ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth, ee Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 2018.

## Cydymffurfio ag egwyddorion ymgynghori

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r Egwyddorion Ymgynghori a nodir yng nghanllawiau'r Weithrediaeth Rheoleiddio Gwell sydd ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:

Drwy anfon e-bost at: [consultation.coordinator@defra.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gov.uk)

Neu'n ysgrifenedig i:

Tîm Rheoliadau Amgylcheddol, Defra  
Seacole Building  
2 Marsham Street  
Llundain  
SW1P 4DF

## 2. Gwybodaeth amdanoch chi

Mae amrywiaeth eang o fusnesau, sefydliadau ac unigolion yn ymwneud â thrwyddedu, neu'n cymryd

diddordeb yn y maes hwn. Bwriad y cwestiynau isod yw deall yr amrywiaeth hwn a rhoi eich ymatebion mewn persbectif gydag ymatebion eraill.

### Gwybodaeth am Gyfrinachedd a Diogelu Data

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y llywodraeth yn: [www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra). Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Gall Defra gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat (er enghraifft, cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, ac ati).

Os byddwch yn ateb 'Ydw' i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw ran o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro eich rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu i bartïon eraill yn unol â'r gyfraith mynediad at wybodaeth (yn bennaf, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a Deddf Diogelu Data 2018). Mae gennym ymrwymadau, yn bennaf o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol. Oherwydd hyn, byddai eich esboniad o'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd ar gyfer y cyfan neu ran o'ch ymateb yn ein helpu i gydbwysu'r rhwymedigaethau hyn ar gyfer datgelu yn erbyn unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd. Os byddwn yn cael cais i gadw'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn gyfrinachol, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gadw eich ymateb yn gyfrinachol, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Os byddwch yn ateb 'Nac ydw' i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw ran o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd ond ni fydd eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat ar gael yn gyhoeddus.

Efallai y bydd adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu i ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, â dadansoddwyr allanol. Mae hyn at ddibenion dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig.

Defra yw'r rheolydd data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol rydych chi'n ei ddarparu, ac mae Siarter Gwybodaeth Personol Defra,

<https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter>, yn rhoi manylion am eich hawliau mewn perthynas â thrin data personol.

Mae ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i lwytho i fyny fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

## Cwestiynau

### C1. A ydych chi am i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

Ydw / Nac ydw

Os mai 'Ydw' oedd eich ateb, rhowch eich rheswm.

### C2. Eich enw:

### C3. Eich cyfeiriad e-bost:

Mae hyn yn ddewisol, ond os byddwch yn rhoi eich cyfeiriad e-bost byddwch yn gallu dychwelyd i olygu

eich ymateb i'r ymgynghoriad yn Citizen Space unrhyw bryd nes i chi ei gyflwyno.

Byddwch

hefyd yn derbyn e-bost cydnabod pan fyddwch yn cyflwyno ymateb wedi'i gwblhau.

### C4. Pa un o'r dewisiadau isod sy'n eich disgrifio chi orau?

Ticiwch un dewis yn unig os gwelwch yn dda. Os oes mwy nag un categori yn berthnasol i chi, dewiswch yr un sy'n **eich disgrifio chi orau** a pha sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli yn eich ymateb. (Rhaid ateb hwn)

Academaidd neu ymchwil

Sefydliad sy'n cynrychioli'r diwydiant/corff masnach

Elusen neu fenter gymdeithasol

Grŵp cymunedol

Ymgynghoriaeth

Unigolyn

Llywodraeth leol

Sefydliad anllywodraethol

Ffermwr

Gweithredwr gwastraff

Cwmni/darparwr cyfleustodau

Perchennog/rheolwr tir

Corff cyhoeddus arall

Busnes arall (rhowch fanylion)

Unrhyw ddisgrifiad arall (rhowch fanylion)

**C5. Os ydych chi'n ymateb ar ran busnes/sefydliad, beth yw ei enw?**

**C6. Os ydych yn ymateb ar ran busnes/sefydliad, beth yw nifer cyfartalog yr aelodau staff?**

1

2-9

10-49

50-499

500+

**C7. Ble rydych chi wedi'ch lleoli?**

Os ydych chi'n ateb ar ran busnes/sefydliad sydd wedi'i wasgaru ar draws y wlad, dewiswch y lleoliad mwyaf priodol, fel y brif swyddfa a/neu'r brif ardal gweithgarwch.

[Canllawiau ar ddsbarthu rhanbarthol](#)

Dwyrain Canolbarth Lloegr

Dwyrain Lloegr

Llundain

Gogledd-ddwyrain Lloegr

Gogledd-orllewin Lloegr

De-ddwyrain Lloegr (ac eithrio Llundain)

De-orllewin Lloegr

Gorllewin Canolbarth Lloegr

Swydd Efrog a Humber

Cymru

Dim un o'r uchod/mae'r brif ardal gweithgarwch y tu allan i Gymru a Lloegr

## 3. Y Rheoliadau

Mae'r rheoliadau'n darparu ar gyfer goruchwyliaeth barhaus gan reoleiddwyr o amrywiaeth o weithgareddau, gosodiadau, gweithrediadau, offer a phrosesau a allai niweidio'r amgylchedd, sydd i gyd yn cael eu diffinio fel mathau o 'gyfleusterau' wedi'u rheoleiddio. Gall busnesau neu unigolion gynnal cyfleusterau wedi'u rheoleiddio ac weithiau maen nhw'n cynnwys gweithgareddau ar raddfa fach fel gollwng carthion aelwydydd, a mân waith adeiladu ar gyrsiau dŵr.

Mae cyfleusterau sy'n cael eu rheoleiddio yn cael eu grwpio'n ddeuddeg dosbarth y mae rheolaethau amgylcheddol yn berthnasol iddynt. Dyma'r dosbarthiadau hyn:

- Gosodiadau
- Offer symudol
- Gweithrediadau gwastraff
- Gweithrediadau gwastraff mwyngloddio
- Gweithgareddau sylweddau ymbelydrol
- Gweithgareddau gollwng dŵr

- Gweithgareddau dŵr daear
- Peiriannau bach ar gyfer llosgi gwastraff
- Gweithgareddau allyrru toddyddion
- Gweithgareddau perygl llifogydd
- Offer hylosgi canolig
- Generaduron penodedig

Mae'r rheoliadau'n sefydlu fframwaith syml o reolau a gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am drwyddedau, eu derbyn, eu hamrywio, eu trosglwyddo a'u hildio, ynghyd â threfniadau cydymffurfio, gorfodi ac apelio, yn ogystal â chanllawiau safonol.

Mae'r fframwaith cyson unigol hwn yn lleihau'r angen am reoliadau ar wahân ar gyfer gwahanol feysydd risg amgylcheddol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y dirwedd reoleiddio gyffredinol mor syml ac integredig â phosibl, yn ogystal â'i bod yn gyflymach ac yn rhatach i weithredwyr ei deall a chydymffurfio â hi.

## Hierarchaeth o lefelau rheoli cymesur

O dan y gyfundrefn, dylai'r ymdrech reoleiddio fod yn gymesur â lefel y risg amgylcheddol, yr effeithiau a pherfformiad y gweithredwr. Mae rheoleiddwyr yn canolbwyntio ar weithgareddau risg uwch i gyflawni'r canlyniadau amgylcheddol a ddymunir, ac i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau. Er mwyn caniatáu hyn, mae hierarchaeth o ddewisiadau caniatáu sy'n gysylltiedig â phroffil risg gwahanol fathau o weithgareddau.

Dyma'r dewisiadau o dan yr hierarchaeth hon:

- Cyfleusterau wedi'u hesemptio (nad oes angen trwydded ar eu cyfer)
  - Cyfleusterau wedi'u hesemptio nad oes angen eu cofrestru
  - Cyfleusterau wedi'u hesemptio y mae angen eu cofrestru
- Cyfleusterau wedi'u rheoleiddio (sydd angen trwydded)
  - Cyfleusterau safonol (sy'n gallu gweithredu o dan drwydded rheolau safonol)
  - Yr holl gyfleusterau eraill (y mae'n rhaid iddynt weithredu o dan drwydded bwrpasol)

**Cyfleusterau wedi'u hesemptio:** Mae lefel is o reolaeth ar gael i weithredwyr cyfleusterau penodol sy'n cael eu diffinio gan [reoliad 5](#) o'r rheoliadau fel rhai 'wedi'u hesemptio'. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys dros 110 o fathau o gyfleusterau yr ystyrir eu bod yn peri risg is. Dim ond mewn pedwar categori o gyfleuster y ceir yr esemptiadau hyn: gweithgareddau perygl llifogydd, gweithrediadau gwastraff, gweithgareddau gollwng dŵr, a gweithgareddau dŵr daear. Gellid hefyd cyflwyno esemptiadau i reolwyr a chlodwyr gwastraff fel rhan o unrhyw ddiwygiadau i'r gyfundrefn cludwyr, broceriaid a gwerthwyr gwastraff yn Lloegr.

Nid yw'r lefel hon o reolaeth yn berthnasol i ddsbarthiadau eraill o gyfleuster, lle nad yw'r cysyniad o gyfleuster 'wedi'i esemptio' yn bodoli yn yr un ffordd. Er enghraifft, nid yw'n

berthnasol i gyfleusterau 'diwydiannol' (gosodiadau, gweithgareddau allyrru toddyddion, peiriant bach ar gyfer llosgi gwastraff, offer hylosgi canolig a generaduron penodedig), nac i weithgareddau sylweddau ymbelydrol, hyd yn oed lle mae rhai cyfleusterau wedi'u 'hesemptio' o ofynion eraill.

Nid yw'n ofynnol i weithredwyr gweithgareddau sydd wedi'u hesemptio ddal trwydded, ond mae amodau penodol o hyd (fel rheolau cyffredinol) y mae'n rhaid i weithredwyr gydymffurfio â nhw. Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn diffinio'r mathau o gyfleusterau hyn a'r amodau sy'n berthnasol iddynt.

Dyma'r mathau o gyfleusterau nad oes angen trwydded ar eu cyfer:

- **Cyfleusterau wedi'u hesemptio nad oes angen eu cofrestru.** Dyma'r lefel leiaf llym yn yr hierarchaeth. Disgwylir i weithredwyr gydymffurfio â'r amodau perthnasol, ac mae goruchwyllo'r gweithgareddau hyn yn gyfyngedig ac yn ymatebol i gwynion a digwyddiadau.

Mae'r lefel hon yn berthnasol i nifer fach o fathau penodol o gyfleusterau: gweithgareddau perygl llifogydd wedi'u hesemptio, gweithrediadau gwastraff wedi'u hesemptio, rhywfaint o weithrediadau storio gwastraff dros dro, a mwyafrif y gollyngiadau carthion bach yn Lloegr.

- **Cyfleusterau wedi'u hesemptio y mae angen eu cofrestru.** Rhaid i weithredwyr y cyfleusterau hyn gofrestru gyda rheoleiddwyr, gan roi eu henw a'u cyfeiriad a lleoliad y gweithgareddau y maent yn eu cofrestru. Rhaid i weithredwyr gydymffurfio ag unrhyw amodau penodedig ar gyfer pob math o gyfleuster. Mae gan reoleiddwyr y dewis i ddadgofrestru gweithgareddau os ydynt yn dod yn ymwybodol bod gweithredwyr wedi mynd yn groes i amodau.

Mae'r lefel hon yn berthnasol i amrywiaeth o fathau o gyfleusterau fel rhai gweithgareddau perygl llifogydd wedi'u hesemptio, gweithrediadau gwastraff wedi'u hesemptio, a rhai gweithgareddau dŵr daear a gollwng dŵr wedi'u hesemptio.

**Cyfleusterau sy'n cael eu rheoleiddio (sydd angen trwydded):** Rhaid i weithredwyr y cyfleusterau hyn fod â thrwydded amgylcheddol. Mae trwyddedau'n cynnwys amodau y mae'n rhaid i weithredwyr gydymffurfio â nhw (fel gosod amcanion neu ganlyniadau, safonau i liniaru perygl/risg benodol, ac amodau sy'n mynd i'r afael â gofynion deddfwriaethol penodol).

Pan fydd gweithredwr yn gwneud cais am drwydded, caiff y rheoleiddiwr perthnasol naill ai ei rhoi neu wrthod ei rhoi, ar sail ei asesiad o'r risgiau amgylcheddol a chymhwysedd y gweithredwr. Gall rheoleiddwyr ddefnyddio amrywiaeth o ymyriadau i sicrhau cydymffurfiaeth mewn cyfleusterau sydd wedi'u hesemptio, gan gynnwys gorfodaeth. Mae'r broses hon yn arwain at gostau a chyfyngiadau amser ychwanegol i weithredwyr, ond mae'n ymateb cymesur i'r lefelau uwch o risg amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r mathau hyn o gyfleusterau.

Dyma'r cyfleusterau y mae angen trwydded ar eu cyfer:

- **Cyfleusterau safonol (sy'n gallu gweithredu o dan drwydded 'rheolau safonol')**. Mae'r rhain ar gael ar gyfer rhai mathau o gyfleusterau, lle mae risgiau generig yn cael eu deall, eu hasesu a'u lliniaru'n dda. Mae'r amodau yn y trwyddedau hyn yn gosod gofynion cyson ar gyfer pob gweithredwr, ar sail asesiad risg generig ar gyfer y math hwnnw o gyfleuster. Mae gweithredwyr yn elwa o broses ymgeisio symlach a chyflymach, er nad oes hyblygrwydd ar gyfer gwahanol amodau mewn gwahanol safleoedd.

Mae gan reoleiddwyr arweiniol neu weinidogion perthnasol y llywodraeth bwerau i gyhoeddi, diwygio neu ddileu rheolau safonol, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar bob asesiad risg a set o reolau. Mae'r broses hon yn cymryd tua 9 mis fel arfer. Mae'r pwerau hyn wedi'u nodi yn y rheoliadau, felly nid oes angen unrhyw ddeddfwriaeth newydd i wneud y newidiadau hyn.

Cyhoeddir rheolau safonol ar-lein<sup>1</sup> ac maent ar gael ar gyfer nifer o wahanol fathau o gyfleusterau wedi'u rheoleiddio.

- **Yr holl gyfleusterau eraill (y mae'n rhaid iddynt weithredu o dan drwyddedau pwrpasol)**. Os nad oes rheolau safonol ar gael ar gyfer cyfleuster wedi'i reoleiddio, rhaid i'r gweithredwr wneud cais am drwydded bwrpasol. Rhaid i'r cais gynnwys asesiad risg sy'n benodol i'r safle, gan arwain at amser a chostau ychwanegol i weithredwyr. Mae ymgynghori cyhoeddus yn aml yn chwarae rhan bwysig, ac mae amodau wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol pob cais (er bod amodau trwyddedau cyffredinol yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n bosibl).

Mae trwyddedau pwrpasol yn darparu'r rheolaeth fwyaf manwl ar gyfer goruchwyliaeth gan reoleiddwyr, ac maent yn gymesur ar gyfer y mathau o gyfleusterau sydd â'r lefel uchaf o risg a lle dylai amodau arbennig a gwirio cydymffurfiad fod yn berthnasol.

---

<sup>1</sup> [Rheolau safonol: trwyddedau amgylcheddol - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) a [Cyfoeth Naturiol Cymru / Trwyddedau rheolau safonol ar gyfer safleoedd](#)

	<b>Wedi'i esemptio (Heb gofrestru)</b>	<b>Wedi'i esemptio (Wedi'i gofrestru)</b>	<b>Trwyddedau rheolau safonol</b>	<b>Trwyddedau pwrpasol</b>
<b>Math o amodau</b>	Cyffredinol	Cyffredinol	Cyffredinol, yn seiliedig ar asesiad risg generig	Pwrpasol, yn seiliedig ar asesiad risg sy'n benodol i'r safle
<b>Diffinnir gan</b>	Deddfwriaeth	Deddfwriaeth	Rheolau safonol a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr arweiniol	Deddfwriaeth (mae math o gyfleuster angen trwydded yn awtomatig os nad oes dewis arall yn berthnasol)
<b>Proses ar gyfer gweithredwyr</b>	Gweithredu cyfleusterau yn unol ag amodau a nodir yn y ddeddfwriaeth	Cofrestru gyda rheoleiddiwr.  Gweithredu cyfleusterau yn unol â'r amodau a nodir yn y ddeddfwriaeth	Cael a dal trwydded rheolau safonol.  Gweithredu cyfleusterau yn unol â'r amodau yn y drwydded rheolau safonol.	Cael a dal trwydded bwrpasol (angen asesiad risg sy'n benodol i'r safle).  Gweithredu cyfleusterau yn unol â'r amodau a nodir gan reoleiddwyr.
<b>Rôl y rheoleiddiwr</b>	Ymatebol a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol	Ymatebol, gyda chefnogaeth monitro cyfnodol priodol	Monitro gweithredol wrth ddesg ac ar y safle	Monitro gweithredol wrth ddesg ac ar y safle
<b>Yn addas ar gyfer</b>	Mathau o gyfleusterau risg is lle nad oes angen cofrestru	Mathau o gyfleusterau risg is	Mathau o gyfleusterau risg uwch lle mae'r proffil risg generig yn cael ei ddeall yn dda ac yn debyg ar bob safle	Mathau o gyfleusterau risg uwch lle mae angen dull gweithredu penodol i'r safle

Tabl 1: Crynodeb o'r hierarchaeth o lefelau rheolaeth yn y fframwaith trwyddedu amgylcheddol.



Nid yw llawer o fusnesau neu weithgareddau yn ddarostyngedig i unrhyw un o'r lefelau rheoli hyn. Mae hyn yn cynnwys:

**Cyfleusterau y tu allan i gwmpas y gyfundrefn:** Mae'r rheoliadau'n pennu'r mathau o gyfleusterau y mae ei darpariaethau'n berthnasol iddynt, yn ogystal â throthwyon lefel gweithgarwch. Ni fydd gan unrhyw fath o gyfleuster nad yw wedi'i restru, neu ar raddfa ddigon bach, reolaethau sy'n cael eu cymhwyso o dan y gyfundrefn drwyddedu.

**Cyfleusterau sy'n cael eu llacio rhag gorfodaeth gan reoleiddwyr:** Efallai y bydd rheoleiddwyr yn penderfynu peidio â gorfodi rhai gofynion trwyddedau mewn rhai amgylchiadau dros dro, weithiau mewn argyfwng, fel pan arweiniodd pandemig Covid-19 at bwysau cynyddol ar y sector gwastraff. Mae'n bosibl y byddant yn dal i ddisgwyl i weithredwyr gydymffurfio ag amodau penodol, a chyhoeddi 'datganiadau sefyllfa rheoleiddiol' (yn Lloegr) a phenderfyniadau rheoleiddio (yng Nghymru) i egluro hyn. Ar hyn o bryd, mae 175 o ddatganiadau sefyllfa rheoleiddiol gweithredol a 44 o benderfyniadau rheoleiddio gweithredol yn ymwneud â gofynion trwyddedu.

Er bod y dull hwn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd ac ystwythder ymarferol, yn enwedig ar gyfer sefyllfaoedd lle mae'r gofyniad am drwydded yn cael ei ystyried yn anghymesur â'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd, mae ganddo anfanteision. Mae'n seiliedig ar y rheoleiddiwr yn arfer disgresiwn gorfodi; fodd bynnag nid yw hyn yn rhoi sicrwydd i weithredwyr eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith, a gallai arwain at gwynion gan y cyhoedd. Efallai nad oes cysylltiad clir ag amcanion y gyfundrefn drwyddedu. Nid oes gofyniad ychwaith i ymgynghori â'r cyhoedd sy'n gwanhau atebolrwydd a goruchwyliaeth gan weinidogion.

## Newid lefel y math o gyfleuster yn yr hierarchaeth

O bryd i'w gilydd, mae risgiau a derbynyddion amgylcheddol, technolegau, technegau rheoli a galluoedd rheoliadol yn newid. Mae diweddarau gofynion rheoleiddio i adlewyrchu hyn, fel arfer drwy fân newidiadau technegol, yn helpu i gyflawni amcanion y gyfundrefn drwyddedu yn fwy effeithiol, gan ganiatáu i'r dull gweithredu ar gyfer natur y risgiau barhau i fod yn gymesur.

Gellir newid unrhyw agwedd ar y rheoliadau drwy ddiwygio deddfwriaeth ymhellach ar ôl ymgynghori.

Mewn rhai amgylchiadau, mae pwerau i wneud newidiadau yn cael eu dirprwyo i reoleiddwyr, gan ganiatáu dull hyblyg a chymesur. Ar hyn o bryd, mae gan y rheoleiddwyr arweiniol bwerau i gyhoeddi a dirymu rheolau safonol. Nid oes angen unrhyw ddiwygiadau i ddeddfwriaeth i wneud y newidiadau hyn. Mae hyn yn caniatáu iddynt fynd ati'n gyflym i addasu lefel y rheolaeth ar gyfer cyfleusterau y mae angen trwydded ar eu cyfer, drwy un o'r dulliau canlynol:

- Cyhoeddi rheolau safonol ar gyfer math o gyfleuster sydd ar hyn o bryd yn gofyn am drwydded bwrpasol, gan ddarparu dull cyflymach a symlach i weithredwyr ddewis trwydded;
- Diwygio'r rheolau safonol presennol, fel bod yr amodau sy'n ymwneud â'r mathau o gyfleusterau y maent yn eu cwmpasu yn dal yn briodol;
- Dirymu rheolau safonol presennol ar gyfer math o gyfleuster, sy'n golygu y bydd angen i bob gweithredwr yr effeithir arno ddilyn y broses bwrpasol wrth wneud cais am drwydded.

Fodd bynnag, mae cyfleusterau sydd wedi'u hesemptio, a'r amodau sy'n berthnasol iddynt, wedi'u nodi yn y rheoliadau, na ellir ond eu newid drwy ddiwygio deddfwriaethol.

Yn gryno, pan fydd y rheoliadau'n diffinio mathau penodol o gyfleuster fel rhai sydd wedi'u hesemptio, mae pwerau rheoleiddwyr i wneud newidiadau yn gyfyngedig ac yn aneffeithiol.

## Oedi yn y system bresennol

Mae'r pŵer presennol i ddiwygio'r rheoliadau yn eang iawn, ond mae'r broses o'i ddefnyddio<sup>2</sup> yn aml yn hir ac yn wynebu tarfu. Er enghraifft, mae'r cynigion canlynol ar gyfer diwygiadau wedi'u targedu i fynd i'r afael ag oedi yn y system drwyddedu bresennol wedi wynebu oedi:

- Cynigion i newid esemptiadau ([ymgyngorwyd arnynt yn 2018](#), mae gwaith i ddeddfu'r diwygiadau penodol hyn yn parhau);
- Cynigion i newid rhai esemptiadau i berygl llifogydd ([ymgyngorwyd arnynt yn 2018](#));
- Cynigion i newid esemptiadau gweithgarwch dŵr daear penodol yn Lloegr ([ymgyngorwyd arnynt yn 2021](#), a rhoddyd nhw ar waith yn 2023).

Mae'r achos dros weithredu newidiadau fel y rhain cyn gynted â phosibl yn glir, o ystyried canlyniadau peidio â rhoi'r defnydd o esemptiadau ar sail fwy tryloyw a chadarn. Er enghraifft, roedd cynigion 2018 i newid esemptiadau gwastraff yn targedu'r esemptiadau hynny y canfuwyd eu bod yn cael eu camddefnyddio'n rheolaidd i guddio gweithgareddau anghyfreithlon. Mae'r oedi cyn gwneud y newidiadau hyn wedi caniatáu i arferion anghyfreithlon barhau. Mae hyn yn wrth-gystadleuol, yn tanseilio busnesau cyfreithlon, ac yn datgymell buddsoddi yn ogystal â niweidio'r amgylchedd.

---

<sup>2</sup> Fel arfer yn cynnwys un o weinidogion y llywodraeth yn gosod offeryn statudol gerbron y Senedd

Byddai mynd i'r afael ag oedi o'r fath felly'n caniatáu ymateb cyflymach a mwy hyblyg i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, a fyddai o fudd i'r diwydiant ar yr un pryd â diogelu'r amgylchedd.

## Cwestiynau

**C8. A ydych chi, neu'r busnes/sefydliad yr ydych yn ymateb ar ei ran, y gweithredu unrhyw gyfleuster sy'n cael ei reoleiddio o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, neu weithgareddau rheoli a chludo gwastraff (y gellid cael eu rheoleiddio o dan ein cynlluniau ar wahân fel rhan o unrhyw ddiwygiadau i'r system cofrestru cludwyr, broceriaid a gwerthwyr gwastraff yn Lloegr)? Mae hyn yn cynnwys yr holl weithgareddau sy'n gofyn am drwydded, hyd yn oed os ydynt ar raddfa fach, fel gollwng carthion aelwydydd a mân weithgareddau ar brif afon neu strwythur amddiffyn rhag llifogydd neu wrth ei ymyl.**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

**C9. A ydych chi, neu'r busnes/sefydliad rydych chi'n ymateb ar ei ran, yn gweithredu unrhyw gyfleusterau sydd wedi'u hesemptio (hynny yw y rheini nad oes angen trwydded arnynt er bod amodau cyffredinol yn dal yn berthnasol) o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016?**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

**C10. A ydych chi'n gweithredu neu â diddordeb yn unrhyw un o'r dosbarthiadau canlynol o gyfleusterau wedi'u rheoleiddio sydd o fewn cwmpas ein cynigion?**

Gweithgareddau gollwng dŵr

Gweithgareddau dŵr daear

Gweithgareddau perygl llifogydd

Gweithrediadau gwastraff

Gweithgareddau rheoli a chludo gwastraff

Nac ydw (mae'r prif ffocws ar ddsbarthiadau eraill o gyfleusterau)

## 4. Newidiadau arfaethedig i wneud yr hierarchaeth yn fwy hyblyg

Rydym yn cynnig rhoi pwerau newydd i reoleiddwyr arweiniol ddiffinio mathau o gyfleusterau sy'n cael eu rheoleiddio ac sydd wedi'u hesemptio o'r angen i ddal trwydded, ac i osod yr amodau sy'n berthnasol iddyn nhw. Bydd hyn yn gwella tryloywder, yn rhoi mwy o sicrwydd i fusnesau ac yn gwella gallu'r gyfundrefn drwyddedu i ddiogelu ein hamgylchedd ac iechyd pobl a chyflawni ei amcanion yn fwy effeithiol.

Ni fyddai ein cynigion yn newid yr esemptiadau neu'r amodau sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer gweithredwyr yn uniongyrchol.

Ni fyddai'r pwerau hyn ond ar gael ar gyfer dosbarthiadau a all eisoes gynnwys cyfleusterau wedi'u hesemptio fel y'u diffinnir gan reoliad 5 o'r rheoliadau (gweithgareddau perygl llifogydd, gweithrediadau gwastraff, gollyngiadau dŵr, a gweithgareddau dŵr daear, ac yn dilyn unrhyw newidiadau yn Lloegr yn unig, gweithgareddau rheoli a chludo gwastraff). Ni fyddent yn effeithio ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer unrhyw un o'r cyfundrefnau eraill.

O ran gosodiadau a chyfleusterau eraill yn y sector diwydiannol, rydym yn datblygu cynigion ar gyfer ymgynghori i ddiweddarau'r fframwaith trwyddedu er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer yr amgylchedd a chenhadaeth Llywodraeth y DU yn well o ran twf economaidd, pŵer glân ac iechyd y cyhoedd. Bydd yr ymgynghoriad ar wahân hwn yn cynnwys ystyried y rôl y gallai esemptiadau ei chwarae ar gyfer cyfleusterau diwydiannol wrth gyflawni'r canlyniadau hyn.

Ar gyfer y dosbarthiadau o gyfleusterau sydd o fewn y cwmpas, byddai'r pwerau newydd yn caniatáu i reoleiddwyr arweiniol wneud y canlynol:

1. Dynodi mathau o gyfleusterau, yn amodol ar y mesurau diogelu a amlinellir yn adran 5, fel rhai sydd wedi'u hesemptio rhag yr angen i ddal trwydded;
2. Nodi neu addasu amodau y mae'n rhaid i weithredwyr pob math o gyfleuster sydd wedi'i esemptio gydymffurfio â nhw. Byddai hyn yn caniatáu iddynt nodi a oes rhaid i weithredwyr pob math o gyfleuster wedi'i esemptio gofrestru gyda rheoleiddwyr a pha amodau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw;
3. Tynnu statws 'wedi'i esemptio' oddi ar unrhyw fath o gyfleuster, ac felly ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr y cyfleusterau hynny gael trwydded.

	<b>Wedi'i esemptio (Heb gofrestru)</b>	<b>Wedi'i esemptio (Wedi'i gofrestru)</b>	<b>Rheolau safonol</b>	<b>Pwrpasol</b>
<b>Dulliau cyfredol o ychwanegu mathau o gyfleuster at y lefel hon</b>	Deddfwriaeth	Deddfwriaeth	Rheolau safonol	Deddfwriaeth neu ddirymu rheolau safonol
<b>Dulliau cyfredol i ddileu mathau o gyfleuster at y lefel hon</b>	Deddfwriaeth	Deddfwriaeth	Dirymu rheolau safonol	Deddfwriaeth neu reolau safonol
<b>Dulliau presennol o osod amodau</b>	Deddfwriaeth	Deddfwriaeth	Rheolau safonol	Penderfyniad y rheoleiddiwr (gall ddilyn ymgynghoriad cyhoeddus pwrpasol)
<b>Dulliau arfaethedig o ychwanegu mathau o gyfleuster at y lefel hon</b>	Deddfwriaeth neu benderfyniad y rheoleiddiwr arweiniol	Deddfwriaeth neu benderfyniad y rheoleiddiwr arweiniol	Rheolau safonol	Deddfwriaeth, dirymu rheolau safonol, neu benderfyniad y rheoleiddiwr arweiniol
<b>Dulliau arfaethedig i ddileu mathau o gyfleuster at y lefel hon</b>	Deddfwriaeth neu benderfyniad y rheoleiddiwr arweiniol	Deddfwriaeth neu benderfyniad y rheoleiddiwr arweiniol	Dirymu rheolau safonol	Deddfwriaeth, rheolau safonol, neu benderfyniad y rheoleiddiwr arweiniol
<b>Dulliau arfaethedig o osod amodau</b>	Deddfwriaeth neu benderfyniad y rheoleiddiwr arweiniol	Deddfwriaeth neu benderfyniad y rheoleiddiwr arweiniol	Rheolau safonol	Deddfwriaeth neu benderfyniad y rheoleiddiwr

Tabl 2: Crynodeb o'r cynigion i wneud yr hierarchaeth o lefelau rheolaeth yn y fframwaith trwyddedu amgylcheddol yn fwy hyblyg.

Byddai'r cynigion hyn wedyn yn caniatáu i reoleiddwyr arweiniol addasu'n gyflymach lefel y rheoleiddio ar gyfer pob math o gyfleusterau yn y dosbarthiadau hyn, p'un a oes angen trwydded arnynt i weithredu ai peidio. Byddai hyn yn unol â'r pwerau presennol i gyhoeddi, diwygio neu ddirymu rheolau safonol, sydd ar hyn o bryd yn cymryd tua 9 mis.

Rydym yn rhagweld y byddai gan y pŵer hwn y manteision canlynol:

- Mae rheoleiddwyr arweiniol eisoes yn goruchwyllo gweithrediad y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r materion ymarferol a hanes o gynnal ymyriadau effeithiol i fynd i'r afael â'r rhain. Byddant felly'n gallu defnyddio'r pwerau hyn i ymateb yn gyflymach ac yn fwy effeithlon nag a ganiateir gan y system bresennol, lle maent yn nodi bod angen gwneud hynny.
- Hyrwyddo ystwythder y gyfundrefn drwyddedu a'r rheoleiddwyr arweiniol i ymateb yn gymesur i faterion a risgiau sy'n dod i'r amlwg a chyflawni'r nod o ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd yn fwy effeithiol.
- Hwyluso arloesedd a darparu rheolaethau rheoleiddio priodol i wella dulliau monitro ac annog arferion a thechnoleg amgylcheddol newydd.
- Lleihau'r baich gweinyddol ar weithredwyr a rheoleiddwyr.
- Darparu mwy o sicrwydd i fusnesau.

## Cwestiwn

**C11. A ydych chi'n cytuno y dylid rhoi'r pwerau newydd hyn i reoleiddwyr arweiniol?**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

## Dosbarthiadau presennol o gyfleusterau y bydd y pwerau'n berthnasol iddynt

Rydym yn cynnig y bydd y pŵer ar gael dim ond mewn dosbarthiadau presennol lle mae cynsail eisoes i rai mathau o gyfleusterau gael eu hesemptio rhag yr angen i ddal trwydded. Diffinnir y dosbarthiadau hyn yn y rheoliad 5 presennol fel a ganlyn:

- Gweithgareddau perygl llifogydd;
- Gweithrediadau gwastraff;
- Gweithgareddau gollwng dŵr; a
- Gweithgareddau dŵr daear.

Yn y gorffennol, ymgynghorwyd â gweithredwyr yn y meysydd hyn yn ystod y prosesau i ddynodi gweithgareddau o'r fath, ac mae ganddynt brofiad o ddelio â nhw.

Fel y nodir uchod, nid ydym yn cynnig newidiadau mewn unrhyw ddosbarthiadau presennol eraill o gyfleusterau, lle nad oes cynsail ar gyfer cyfleusterau wedi'u hesemptio.

## Ni fydd y cynigion hyn yn effeithio ar gyfleusterau presennol y tu hwnt i'r pedwar dosbarth hyn.

Yn y sector dŵr, mae rheoleiddio cryfach a gorfodi llymach yn hanfodol er mwyn dal gweithredwyr i gyfrif i gyflawni'r newid y mae'r cyhoedd, am resymau amlwg, am ei weld.

Mae'r Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig) yn cyflawni ymrwymiad llywodraeth y DU i roi cwmnïau dŵr o dan fesurau arbennig a chafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Chwefror 2025. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r cynnydd mwyaf sylweddol mewn pwerau gorfodi i'r rheoleiddwyr mewn degawd, gan roi iddynt y dannedd y mae arnynt eu hangen i gymryd camau llymach yn erbyn cwmnïau dŵr yn ystod y cyfnod buddsoddi nesaf, sy'n dechrau ym mis Ebrill eleni.

Ym mis Hydref 2024, lansiodd llywodraethau'r DU a Chymru gomisiwn annibynnol, dan arweiniad Syr Jon Cunliffe a gyda chefnogaeth cynghorwyr arbenigol, i argymhell diwygiadau i ailosod system reoleiddio'r sector dŵr. Bydd y comisiwn yn cyhoeddi adroddiad yn Ch2 2025, gydag argymhellion ar gyfer datrysiadau i broblemau'r sector y gellir eu rhoi ar waith.

Mae'r mesurau diogelu llym rydym yn eu cynnig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn wedi'u dylunio i sicrhau nad yw'r gwaith rheoleiddio tynn ar weithgareddau cwmnïau dŵr, fel defnyddio gorlifoedd storm, yn cael ei danseilio. Fodd bynnag, efallai y bydd ein cynigion yn golygu bod modd gwneud newidiadau i'r trefniadau ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr sydd wedi'u hesemptio a/neu sy'n isel eu risg, ar ôl ymgynghori pellach. Er enghraifft, mae'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol ar hyn o bryd yn nodi'r amodau yn y rheoliadau sy'n caniatáu defnyddio tanc septig neu waith trin carthion heb drwydded amgylcheddol. Gallai'r diwygiadau arfaethedig ganiatáu i reoleiddwyr, yn amodol ar ymgynghori pellach, adlewyrchu risg amgylcheddol yn well a diogelu safleoedd pwysig fel nentydd calch drwy ddiwygiadau i'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol presennol i gryfhau goruchwyliaeth a rheolaeth y rheoleiddwyr.

## Dosbarthiadau ychwanegol o gyfleusterau y bydd y pwerau'n berthnasol iddynt

Yn Lloegr yn unig, rydym yn cynnig y byddai'r pŵer yn gymwys hefyd i'r gweithgareddau rheoli a chludo gwastraff os caiff ei gyflwyno i'r rheoliadau fel rhan o'r diwygiadau i'r system gofrestru cludwyr, broceriaid a gwerthwyr gwastraff yn Lloegr.

## Cwestiynau

**C12. A ydych chi'n cytuno y dylai'r pwerau hyn fod yn berthnasol i weithgareddau perygl llifogydd?**



Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

**C13. A ydych chi'n cytuno y dylai'r pwerau hyn fod yn berthnasol i weithrediadau gwastraff?**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

**C14. A ydych chi'n cytuno y dylai'r pwerau hyn fod yn berthnasol i ollyngiadau dŵr?**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

**C15. A ydych chi'n cytuno y dylai'r pwerau hyn fod yn berthnasol i weithgareddau cyrsiau dŵr?**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

**C16. A ydych chi'n cytuno y dylai'r pwerau hyn, yn Lloegr yn unig, fod yn berthnasol i'r gweithgareddau rheoli a chludo gwastraff os cânt eu cyflwyno i'r rheoliadau?**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

**C17. A ddylai'r pwerau hyn fod yn berthnasol i unrhyw ddsbarth arall o gyfleusterau?**

Dylent / Na ddylent / Ddim yn siŵr

Rhowch reswm dros eich ymateb:

## Cymhwyso'r pwerau

Mae'r rheoleiddiwr ar gyfer pob math o gyfleuster wedi'i nodi yn y rheoliadau. **Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i hyn.**

Y rheoleiddwyr arweiniol, sef Asiantaeth yr Amgylchedd (yn Lloegr) a Cyfoeth Naturiol Cymru (yng Nghymru) sy'n rheoleiddio trwyddedu, ac eithrio nifer fach o fathau o gyfleusterau sy'n cael eu rheoleiddio gan awdurdodau lleol<sup>3</sup>.

---

<sup>3</sup> Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir o dan reoliad 33 o'r Rheoliadau, mae Asiantaeth yr Amgylchedd (yn Lloegr) a Chyfoeth Naturiol Cymru (yng Nghymru) yn rheoleiddio:

- Gosodiadau Rhan A(1);
- peiriannau gwastraff symudol;
- offer hylosgi canolig symudol;
- gweithrediadau gwastraff, gan gynnwys y rhai a gyflawnir mewn gosodiad Rhan B neu gan beiriant symudol Rhan B (oni bai bod y gwaith gwastraff yn weithgaredd Rhan B);

**Rydym yn cynnig y bydd y pwerau newydd yn cael eu rhoi i'r rheoleiddwyr arweiniol yn unig, sef Asiantaeth yr Amgylchedd (o ran cyfleusterau yn Lloegr) a Cyfoeth Naturiol Cymru (o ran cyfleusterau yng Nghymru).** Fel rheoleiddwyr cenedlaethol, maent mewn sefyllfa dda i wneud y gwaith ymchwil, datblygu ac ymgynghori angenrheidiol ynghylch y diwygiadau arfaethedig.

Byddai hyn yn unol â'r pŵer presennol i Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru greu rheolau safonol ar gyfer cyfleusterau sy'n cael eu rheoleiddio, y gallant eu defnyddio i wneud a diwygio rheolau safonol.

**Nid ydym yn cynnig ymestyn y pwerau hyn i awdurdodau lleol o ystyried mai rôl gyfyngedig sydd ganddynt o ran rhoi trwyddedau ar gyfer y gosodiadau sydd o fewn cwrmpas y diwygiadau hyn.**

Mae awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n rheolaidd â rheoleiddwyr arweiniol, ac ni fydd ein cynnig yn eu hatal rhag cydweithredu fel y maent heddiw, gan gynnwys mewn perthynas â defnyddio'r pwerau newydd.

## Cwestiynau

**C18. A ydych chi'n cytuno y dylid rhoi'r pwerau hyn i Asiantaeth yr Amgylchedd yng nghyswllt cyfleusterau yn Lloegr?**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

- 
- gweithrediadau gwastraff mwyngloddio, gan gynnwys unrhyw waith a wneir mewn gosodiad Rhan B;
  - gweithgareddau sylweddau ymbelydrol;
  - gweithgareddau gollwng dŵr, gan gynnwys y rhai a gyflawnir mewn gosodiad Rhan B;
  - gweithrediadau dŵr daear, gan gynnwys unrhyw waith a wneir mewn gosodiad Rhan B;
  - gweithgareddau perygl llifogydd;
  - offer hylosgi canolig, gan gynnwys y rhai a gyflawnir mewn gosodiad Rhan A(2) neu B neu sydd hefyd yn beiriannau bach ar gyfer llosgi gwastraff; a
  - generaduron penodedig, gan gynnwys y rhai a gyflawnir mewn gosodiad Rhan A(2) neu Ran B neu sy'n beiriannau bach ar gyfer llosgi gwastraff.

Mae'r awdurdod lleol perthnasol yn rheoleiddio'r canlynol:

- Gosodiadau Rhan A(2) gan gynnwys unrhyw weithrediadau gwastraff, gweithgareddau gollwng dŵr neu weithgareddau dŵr daear a gyflawnir fel rhan o'r gosodiad neu'r offer symudol (ac eithrio fel y nodir uchod);
- Gosodiadau Rhan B a pheiriannau symudol Rhan B (ac eithrio fel y nodir uchod);
- peiriannau bach ar gyfer llosgi gwastraff (ac eithrio fel y nodir uchod);
- gweithgareddau allyrru toddyddion.

## C19. A ydych chi'n cytuno y dylid rhoi'r pwerau hyn i Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â chyfleusterau yng Nghymru?

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

### 5. Diogelu

Nod ein cynigion yw cynyddu'r hyblygrwydd yn yr hierarchaeth o lefelau rheolaeth yn y gyfundrefn drwyddedu. Nid ydym am rwystro diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd, na gwrth-ddweud unrhyw un o'r amcanion sy'n sail i'r gyfundrefn. Rydym wedi ystyried lle byddai mesurau diogelu – cyfyngiadau neu amodau ar y pwerau – yn helpu i sicrhau bod canlyniadau negyddol o'r fath yn cael eu hatal.

Rydym yn cynnig y mesurau diogelu canlynol y bwriedir iddynt fod yn gymesur ac yn unol â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer trefniadau rheoleiddio eraill.

### Diogelu ar gyfer amcanion

Mae'r gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol yn fframwaith o reolau sy'n berthnasol i wahanol sectorau. Maent wedi cael eu defnyddio i gyfnerthu nifer o wahanol systemau trwyddedu sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr a oedd yn bodoli'n flaenorol. Roedd gan bob system ei hamcanion a'i meini prawf ei hun, ac mae'r rheoliadau wedi cadw'r rhain.

Dyma'r amcanion a'r meini prawf ar gyfer y dosbarthiadau presennol o gyfleusterau rydym yn cynnig y bydd y pwerau hyn yn berthnasol iddynt:

- Gweithgareddau perygl llifogydd (fel y nodir yn Atodlen 25 y rheoliadau):
  - rheoli perygl llifogydd;
  - rheoli'r effeithiau ar ddraenio tir;
  - diogelu'r amgylchedd.
- Gweithrediadau gwastraff (Atodlen 9): diogelu iechyd pobl a'r amgylchedd fel y disgrifir yn Erthygl 13 y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff, hynny yw sicrhau bod rheoli gwastraff yn cael ei wneud heb beryglu iechyd pobl, heb niweidio'r amgylchedd ac, yn benodol:
  - heb risg i ddŵr, aer, pridd, planhigion nac anifeiliaid;
  - heb achosi niwsans drwy sŵn neu arogleuon; a
  - heb gael effaith niweidiol ar gefn gwlad neu fannau o ddiddordeb arbennig.
- Gweithgareddau gollwng dŵr (Atodlen 21 (5) a (6)): Rhaid i weithgareddau sydd wedi'u hesemptio beidio ag achosi llygredd i ddyfroedd croyw mewndirol, dyfroedd arfordirol, neu ddyfroedd tiriogaethol perthnasol.
- Gweithgareddau dŵr daear (Atodlen 22):
  - Atal unrhyw sylwedd peryglus rhag cael ei roi i ddŵr daear;
  - Cyfyngu ar fewnbwn llygryddion nad ydynt yn beryglus i ddŵr daear er mwyn sicrhau nad yw mewnbwn o'r fath yn achosi llygredd dŵr daear.

Rydym yn cynnig cyfyngu ar y pwerau hyn fel mai'r sefyllfa i ddsbarthiadau presennol o gyfleuster rheoledig yw mai dim ond yn unol â'r amcanion a'r meini prawf hyn y gellir eu defnyddio.

## Cwestiynau

**C20. A ydych chi'n cytuno mai dim ond os nad ydynt yn mynd yn groes i unrhyw un o'r amcanion a'r meini prawf cymwys y dylai rheoleiddwyr sy'n defnyddio'r pwerau hyn wneud hynny?**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

**C21. Pa amcanion eraill ddylai fod yn berthnasol?**

Manylion:

## Diogelu ar gyfer risg amgylcheddol

Mae asesiadau risg eisoes yn adnodd pwysig wrth weithredu trwyddedau amgylcheddol, gan mai dim ond ar ôl asesu'r risg amgylcheddol ar gyfer y cyfleusterau y maent yn eu cwmpasu y gellir cyhoeddi trwyddedau amgylcheddol. Mae rheolau safonol yn caniatáu ar gyfer un asesiad risg amgylcheddol generig ar gyfer pob math o gyfleuster y maent yn berthnasol iddo, a rhaid i gais am drwydded bwrpasol gynnwys asesiad risg sy'n benodol i safle. Mae amodau trwyddedau wedi'u cynllunio i sicrhau bod risgiau a nodwyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gynhwysfawr.

Mae'r amodau penodedig sy'n berthnasol i gyfleusterau sydd wedi'u hesemptio fel arfer yn fwy cyffredinol na'r amodau sydd wedi'u cynnwys ar drwydded safonol. Mae hyn yn gymesur pan fydd dull symlach yn ddigon i reoli risgiau'n effeithiol. Fel arfer, dim ond pan fo lefel y risg wedi'i hasesu'n isel y bydd hyn yn berthnasol.

[Darllenwch ganllawiau ar asesiadau risg ar gyfer eich trwydded amgylcheddol.](#)

Rydym yn cynnig y gellir defnyddio'r pŵer i esemptio math o gyfleuster rhag yr angen i ddal trwydded dim ond os yw wedi'i asesu i fod â lefel is o risg i'r amgylchedd ac iechyd pobl.

Nid ydym yn cynnig unrhyw gyfyngiad seiliedig ar risg ar ddefnyddio'r pŵer i dynnu statws wedi'i esemptio oddi ar unrhyw fath o gyfleuster.

## Cwestiynau

**C22. A ydych chi'n cytuno na ddylai'r pwerau hyn fod ar gael ond i esemptio math o gyfleuster rhag yr angen i ddal trwydded i weithredu os asesir bod y gweithgaredd hwnnw'n un â risg isel?**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

### **C23. Sut dylid diffinio lefel y risg?**

Manylion:

## **Mesur diogelu y mae angen ymgynghori yn ei gylch**

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys gweithredwyr cyfleusterau sy'n cael eu rheoleiddio, yn helpu i sicrhau bod modd rhoi ystyriaeth lwyr i reoleiddio. Mae hwyluso craffu cyn newidiadau sylweddol yn y dull rheoleiddio yn gwella dealltwriaeth o effeithiau ac yn caniatáu i addasiadau gael eu gwneud, lle bo hynny'n briodol.

Gall ymgysylltu ddigwydd ar sawl ffurf, fel ymgynghoriad cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae ymgynghoriadau eisoes yn rhan bwysig o'r broses drwyddedu. Yn y rhan fwyaf o ddsbarthiadau o gyfleusterau, mae rheoleiddwyr yn cynnal ymgynghoriad cyn cytuno ar unrhyw reolau safonol, a chyn rhoi unrhyw drwyddedau pwrpasol. Rydym o'r farn y dangoswyd bod y gweithdrefnau presennol i gefnogi hyn yn perfformio'n effeithiol.

Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn defnyddio'r pwerau hyn, ac eithrio pan fyddant yn cael eu defnyddio i wneud mân newidiadau gweinyddol (fel cywiro gwall teipio sydd â goblygiadau rheoleiddiol neu ddiwygio codau dosbarthu gwastraff). Bydd y dull hwn yn adlewyrchu'r gofynion presennol sy'n ymwneud â rheolau safonol a wneir gan reoleiddwyr, a dylai sicrhau tryloywder a manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar sail gwybodaeth, a ddylai ddarparu ar gyfer proses fwy effeithlon a chanlyniadau gwell.

## **Cwestiwn**

### **C24. A ydych chi'n cytuno mai dim ond ar ôl iddynt gynnal ymgynghoriad cyhoeddus a chyhoeddi ymateb iddo y dylai rheoleiddwyr allu defnyddio'r pwerau hyn?**

Ydw / Nac ydw / Ddim yn siŵr

Manylion:

# Mesur diogelu yn caniatáu i weinidogion y Llywodraeth atal y pwerau rhag cael eu defnyddio

Mae sicrwydd atebolrwydd a goruchwyliaeth yn agwedd bwysig ar y rheoliadau.

Mae Rheoliad 62, na fydd ein cynigion yn effeithio arno, yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i reoleiddwyr mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau trwyddedu. Mae hyn yn caniatáu iddynt gyfarwyddo rheoleiddwyr naill ai i arfer neu i *beidio* ag arfer eu pwerau mewn amgylchiadau penodol neu mewn ffordd benodol.

## Mesur diogelu ar fwy nag un cyfleuster ar un safle

Mae'n bosibl lleoli cyfleusterau lluosog ar un safle. Mae'r gyfundrefn drwyddedu yn darparu ar gyfer hyn ac yn caniatáu i un drwydded gael ei rhoi, lle mae'r gweithredwr a'r rheoleiddiwr yr un fath ar gyfer pob un o'r cyfleusterau.

Mewn safleoedd o'r fath, mae'n bosibl y bydd pob un o'r cyfleusterau'n rhyngweithio'n gymhleth, gan arwain at lefel uwch o risg. Gellir dylunio amodau trwydded un safle i reoli'r holl risg hon yn effeithiol.

Fodd bynnag, nid yw'r amodau a nodir ar gyfer mathau o gyfleusterau sydd wedi'u hesemptio yn caniatáu ar gyfer addasiadau a fyddai'n caniatáu iddynt fynd i'r afael â risgiau cyfunol mewn safleoedd sydd â nifer o gyfleusterau wedi'u rheoleiddio. Gallai nifer uwch o gyfleusterau wedi'u hesemptio ar un safle arwain at lefel uwch o risg.

Rydym yn cynnig, lle defnyddir y pŵer hwn i wneud math o gyfleuster wedi'i esemptio rhag yr angen i ddal trwydded, y gellir gosod terfyn lle bo angen ar nifer neu gyfanswm maint y cyfleusterau hynny y gellir eu gweithredu ar unrhyw un safle heb drwydded.

Byddai'r mesur diogelu hwn yn ychwanegol at y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym yn ymateb y llywodraeth atodol i'n hymgynghoriad ar leihau troseddu a pherfformiad gwael [yn y sector gwastraff](#). Byddai'r cynlluniau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr mwy nag un gweithgaredd esempt ar safle sicrhau nad yw cyfanswm pob math o wastraff ar y safle hwnnw yn fwy na'r terfyn isaf yn yr esemptiadau a gofrestrwyd.

## Cwestiynau

**C25. Pan ddefnyddir y pŵer hwn i esemptio cyfleusterau rhag gofynion trwyddedu, a ddylai terfyn fod yn berthnasol i nifer neu gyfanswm maint y cyfleusterau ar un safle heb drwydded?**

Dylai / Na ddylai / Ddim yn siŵr

**C26. Sut y dylid pennu terfyn o'r fath ar gyfer gweithgareddau perygl llifogydd?**

Manylion:

**C27. Sut y dylid pennu terfyn o'r fath ar gyfer gweithrediadau gwastraff (y tu hwnt i'r cynlluniau presennol na ddylai cyfanswm pob math o wastraff ar safle fod yn fwy na'r terfyn isaf yn yr esemptiadau a gofrestrwyd)?**

Manylion:

**C28. Sut y dylid pennu terfyn o'r fath ar gyfer gweithgareddau gollwng dŵr?**

Manylion:

**C29. Sut y dylid pennu terfyn o'r fath ar gyfer gweithgareddau dŵr daear?**

Manylion:

**C30. Sut y dylid pennu terfyn o'r fath ar gyfer gweithgareddau rheoli a chludo gwastraff?**

Manylion:

**C31. A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ynghylch sut y byddai terfynau o'r fath yn cael eu pennu?**

Manylion:

## Mesurau diogelu ychwanegol

### Cwestiwn

**C32. A ddylai unrhyw fesurau diogelu eraill fod yn berthnasol i ddefnyddio'r pwerau hyn? Os ydych chi'n ateb 'Dylai', rhowch y manylion os oes modd.**

Dylai / Na ddylai / Ddim yn siŵr

Manylion:

## 6. Costau a manteision

Rydym wedi asesu effeithiau posibl y cynigion yn erbyn y dewis sylfaenol o gadw'r sefyllfa bresennol, ac wedi amcangyfrif y costau a'r manteision i fusnesau, y llywodraeth, rheoleiddwyr a'r amgylchedd.

Yn ein hasesiad, mae'r prif fanteision yn cynnwys mwy o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd rheoleiddiol, gan arwain at beidio â gorfod pasio is-ddeddfwriaeth mwyach i ychwanegu, dileu neu ddiwygio amodau sy'n ymwneud ag esemptiadau. Gallai hyn arwain at fanteision amgylcheddol ehangach, er bod natur y rhain yn dibynnu ar y sector ac ar gyfer pa esemptiadau y defnyddir y pŵer. Rhagwelir y bydd gweithredwyr yn wynebu mwy o sicrwydd, oherwydd llai o ddibyniaeth gan reoleiddwyr ar safbwyntiau rheoleiddio byrdymor. Mae disgwyl i'r mesurau diogelu rheoleiddiol a amlinellir yn adran 5 gynyddu craffu cyhoeddus drwy'r gofyniad i gynnal ymgynghoriad, ac i wella lefel cymesuredd y risg oherwydd y cyfyngiad ar ddefnyddio'r pŵer i weithgareddau â risg isel yn unig.

Roedd y prif gostau a aseswyd ar gyfer y cynnig yn ymwneud â chostau ymgyfarwyddo i weithredwyr ac i reoleiddwyr, sy'n deillio o orfod deall y newid yn y rheoliadau a dosbarthu hyn drwy eu sefydliad. Mae'r cynnig hefyd yn arwain at fân gostau gweinyddol i reoleiddwyr i lunio canllawiau sy'n ymwneud â'r broses newydd i ychwanegu, dileu neu ddiwygio esemptiadau.

Pan fydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio a bod esemptiad yn cael ei ychwanegu, ei ddileu neu ei ddiwygio, bydd rheoleiddwyr yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus i sicrhau tryloywder ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. I gefnogi'r ymgynghoriad, rydym yn disgwyl i reoleiddwyr gynnal asesiad cymesur o'r costau a'r manteision i fusnesau ac i'r amgylchedd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl effeithiau posibl yn cael eu hystyried yn llawn, yn unol â'r egwyddorion a nodir yng [nghanllawiau arfarnu'r Llyfr Gwyrdd](#).

## Cwestiynau

**C33. A ydych chi'n credu y bydd y pwerau hyn yn gosod unrhyw gostau neu feichiau ychwanegol arnoch chi neu ar eich sefydliad? Rhowch fanylion os yw'n bosibl.**

Oes / Nac oes / Ddim yn siŵr

Manylion:

**C34. A ydych chi'n meddwl y gallai'r pwerau hyn arwain at niwed i'r amgylchedd neu iechyd pobl? Rhowch fanylion os yw'n bosibl.**

Oes / Nac oes / Ddim yn siŵr

Manylion:



**C35. A ydych chi'n meddwl y bydd y pwerau hyn yn arwain at unrhyw fanteision i chi neu'ch sefydliad? Rhowch fanylion os yw'n bosibl.**

Oes / Nac oes / Ddim yn siŵr

Manylion:

**C36. A ydych chi'n meddwl y gallai'r pwerau hyn arwain at fanteision ychwanegol i'r amgylchedd neu iechyd pobl? Rhowch fanylion os yw'n bosibl.**

Oes / Nac oes / Ddim yn siŵr

Manylion:

**C37. A oes gennych unrhyw dystiolaeth a fyddai'n cefnogi'r broses o gyfrifo costau neu fanteision sy'n deillio o'r cynnig? Rhowch fanylion os yw'n bosibl.**

Oes / Nac oes / Ddim yn siŵr

Manylion:

**C38. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar ein cynnigion?**

Manylion:

## **7. Adborth Ymgylchoreion i'r Arolwg Ar-lein**

Diolch am roi o'ch amser i gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein hwn. Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn rhoi cipolwg i ni o'ch barn ar yr adnodd a'r maes/meysydd sydd angen eu gwella yn eich barn chi, drwy lenwi ein holiadur adborth.

**C39. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi ar ein hadnodd ymgynghori ar-lein? Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych am yr adnodd, gan gynnwys awgrymiadau ar sut y gallem ei wella.**

Bodlon iawn

Bodlon

Ddim yn fodlon nac yn anfodlon

Anfodlon

Anfodlon iawn

Ddim yn gwybod

Manylion yr awgrymiadau: